YR ATODLEN (Rheoliad 9)

Buddiannau ariannol a buddiannau penodedig eraill sy'n gwrthdaro

**Buddiannau ariannol**

**1.**—(1) At ddibenion rheoliad 9, mae buddiant ariannol mewn contract, contract arfaethedig neu fater arall yn cynnwys achos—

(a) lle y cafodd person perthnasol ei enwebu neu ei benodi i swydd fel aelod o gorff sy'n cydlafurio gan berson y gwnaed y contract gydag ef neu berson y bwriedir ei wneud gydag ef;

(b) lle y mae person perthnasol yn bartner i berson, neu yng nghyflogaeth person y gwnaed y contract gydag ef neu berson y bwriedir ei wneud gydag ef; neu

(c) lle y mae perthynas i berson perthnasol (gan gynnwys priod neu bartner sifil y person hwnnw o fewn ystyr Deddf Partneriaeth Sifil 2004(**1**) neu rywun sy'n byw gyda'r person hwnnw fel pe bai'n briod neu'n bartner sifil i'r person), yn meddu, neu lle y byddai'n cael ei drin fel un sy'n meddu, ar fuddiant o'r fath, a bod hynny'n hysbys i'r person perthnasol hwnnw.

(2) At ddibenion rheoliad 9, rhaid peidio â thrin person perthnasol fel un sy'n meddu ar fuddiant ariannol yn unrhyw fater—

(a) ar yr amod nad yw ei fuddiant yn y mater ddim mwy na buddiant y rhan fwyaf o'r rhai sy'n cael eu talu i weithio i'r corff sy'n cydlafurio;

(b) dim ond oherwydd bod y person hwnnw wedi'i enwebu neu wedi'i benodi i swydd, gan unrhyw gorff cyhoeddus, neu ei fod yn aelod o, neu'n cael ei gyflogi gan, unrhyw gorff o'r fath; neu

(c) dim ond oherwydd bod y person hwnnw yn aelod o gorfforaeth neu gorff arall, os nad oes gan y person unrhyw fuddiant ariannol o bwys mewn unrhyw warantau'r gorfforaeth honno neu'r corff arall hwnnw.

(3) Nid oes rhwystr i aelodau o'r cydbwyllgor, oherwydd eu buddiant ariannol yn y mater, rhag ystyried cynigion a phleidleisio ar gynigion i un neu fwy o'r cyrff sy'n cydlafurio i drefnu yswiriant sy'n diogelu eu ei aelodau neu haelodau rhag atebolrwyddau a berir ganddynt ac a fyddai'n codi o'u swyddi ac ni fydd corff sy'n cydlafurio, oherwydd buddiant ariannol ei aelodau, yn cael ei rwystro rhag sicrhau yswiriant o'r fath a thalu'r premiymau.

**Penodiad fel aelod o'r cydbwyllgor, cadeirydd neu glerc**

**2.**—(1) Mae'r is-baragraff hwn yn gymwys pan fo person perthnasol yn bresennol mewn cyfarfod o'r cydbwyllgor lle mae un o'r canlynol yn bwnc sy'n cael ei ystyried—

(a) penodiad y person ei hun, ei ailbenodi, neu ei symud o'i swydd fel aelod o'r cydbwyllgor; neu

(b) penodiad y person ei hun neu ei symud o'i swydd fel clerc, neu gadeirydd, y cydbwyllgor; neu

(c) os yw'r person yn noddwr-lywodraethwr, unrhyw benderfyniad o dan baragraff 2 o Atodlen 4 i'r Rheoliadau Llywodraethu Ysgolion a Gynhelir o ran y ddarpariaeth yn yr offeryn llywodraethu ar gyfer noddwyr-lywodraethwyr.

(2) Mewn unrhyw achos pan fo is-baragraff (1) yn gymwys, ymdrinnir â buddiannau'r person perthnasol at ddibenion rheoliad 9(2) fel rhai sy'n gwrthdaro â buddiannau'r cyrff sy'n cydlafurio.

(**1**) 2004 p.33.

**Talu neu arfarnu personau sy'n gweithio i un o'r cyrff sy'n cydlafurio**

**3.**—(1) Mae'r is-baragraff hwn yn gymwys pan fo person perthnasol, sy'n cael ei dalu i weithio i gorff sy'n cydlafurio ac eithrio fel pennaeth neu benadur, yn bresennol mewn cyfarfod cydbwyllgor lle mae cyflog neu arfarniad o berfformiad unrhyw berson penodol sy'n cael ei gyflogi i weithio i gorff sy'n cydlafurio yn bwnc sy'n cael ei ystyried.

(2) Mae'r is-baragraff hwn yn gymwys pan fo pennaeth neu benadur corff sy'n cydlafurio yn bresennol mewn cyfarfod cydbwyllgor lle mae ei gyflog ei hun neu arfarniad o'i berfformiad ei hun yn bwnc sy'n cael ei drafod.

(3) Mewn unrhyw achos pan fo is-baragraff (1) neu (2) yn gymwys, ymdrinnir â buddiannau'r person perthnasol at ddibenion rheoliad 9(2) fel rhai sy'n gwrthdaro â buddiannau'r cyrff sy'n cydlafurio.

**Personau sy'n aelodau o fwy nag un corff llywodraethu sy'n cydlafurio**

**4.** Nid yw'r ffaith bod person yn aelod o gydbwyllgor corff llywodraethu sy'n cydlafurio mewn mwy nag un ysgol neu gorff addysg bellach o dan unrhyw amgylchiadau i'w hystyried yn fuddiant sy'n gwrthdaro at ddibenion y Rheoliadau hyn.